CYNGOR

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS NOS FAWRTH 12 EBRILL 2022 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd C. Andrews – Maer

Y Cynghorwyr:

M. Adams, E.M. Aldworth, C. Bezzina, C. Bishop, A. Collis, D. Cushing, C. Cuss, W. David, M. Davies, T.D. Davies, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs C. Forehead, E. Forehead, A. Gair, N. George, C. Gordon, R. Gough, L. Harding, A. Hussey, V. James, G. Johnston, S. Kent, G. Kirby, A. Leonard, P. Leonard, C. Mann, S. Morgan, B. Owen, T. Parry, D. Poole, D. Preece, J. Pritchard, J. Ridgewell, J. Roberts, R. Saralis, J. Simmonds, E. Stenner, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L. Whittle, T. Williams, B. Zaplatynski.

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor)

TREFNIADAU RECORDIO, FFILMIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio, ac na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond y byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor – Cliciwch Yma i'w Wylio. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J A. Angel, J. Bevan, P. Bevan, K. Dawson, N. Dix, J.E. Fussell, D. Hardacre, D. Harse, D. Havard, A. Higgs, M. James, L. Jeremiah, B. Jones, P. Marsden, B. Miles, G. Oliver, L. Phipps, D. Price, M.E. Sargent, J. Scriven, G. Simmonds, S. Skivens, J. Stone, J. Taylor, W. Williams ac R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol).

2. CYHOEDDIADAU'R MAER

Oherwydd y Cyfnod Cyn yr Etholiad ni wnaeth y Maer unrhyw gyhoeddiadau.

3. DERBYN DEISEBAU O DAN REOL GWEITHDREFN 28(3)

Nid oedd unrhyw ddeisebau.

4. CYFLWYNO GWOBRAU

Nid oedd unrhyw wobrau.

5. DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod nac yn ystod y cyfarfod.

6. COFNODION - CYNGOR – 16 MAWRTH 2022

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2022 (rhifau 1-15) fel cofnod cywir.

7. COFNODION – CYNGOR ARBENNIG – 24 MAWRTH 2022

Ar yr amod y nodir bod y Cynghorydd E.M. Aldworth wedi'i hepgor o'r Ymddiheuriadau am Absenoldeb

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2022 (rhifau 1-3) fel cofnod cywir.

8. DERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL GWEITHDREFN 10(4)

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

ADRODDIADAU SWYDDOGION

9. RHAGLEN SEFYDLU AELODAU 2022

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn amlinellu'r rhaglen sefydlu arfaethedig ar gyfer Cynghorwyr newydd eu hethol a'r rhai sy'n dychwelyd yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

Nododd y Cyngor fod y Rhaglen Sefydlu wedi cael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2022, a argymhellodd yn unfrydol ei bod yn cymeradwyo'r Rhaglen Sefydlu.

Nododd yr Aelodau fod rôl Cynghorydd yn gymhleth ac yn heriol a bod y dirwedd wleidyddol, ddeddfwriaethol a lleol y maent yn gweithio ynddi yn newid yn gyson. Byddai'r rhaglen sefydlu arfaethedig yn galluogi Cynghorwyr i ymgyfarwyddo'n gyflym â'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio, y rheolau a'r gweithdrefnau y mae'n gweithredu oddi tanynt a chymhlethdodau rôl yr aelod etholedig.

Nododd yr Aelodau ddyddiadau'r elfennau Hyfforddiant Gorfodol a gofynnwyd a fyddai cyfleoedd i drefnu sesiynau ychwanegol i ystyried ymrwymiadau gwyliau neu deuluol yr Aelodau a oedd wedi'u trefnu eisoes. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Swyddogion yn

gobeithio gallu recordio sesiynau ond y byddent yn gweithio gydag aelodau unigol i ddarparu hyfforddiant ar sail 1-i-1 pe bai angen.

Cynigiodd Aelod y byddai'r Rhaglen Sefydlu yn elwa o ychwanegu mecanwaith adolygu perfformiad chwe mis, a gallai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y canlyniadau hynny. Gallai dangosyddion gynnwys presenoldeb, hanes hyfforddi ac ati.

Teimlai Aelod fod y wybodaeth hon eisoes yn bodoli yn Adroddiad Blynyddol yr Aelodau.

Mynegodd Aelod bryder hefyd ynghylch sefydlu cyfres o ddangosyddion ar gyfer perfformiad Aelodau Etholedig a pha rôl y gallai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ei chwarae o ran adolygu canlyniadau. Gan fod Aelodau unigol yn gweithio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gydbwyso gofynion gwaith, bywyd ac etholaethau, y teimlad oedd na ellid adlewyrchu na mesur hyn o fewn setiau data statig. Teimlai'r Aelod mai'r etholwyr a'r etholaeth oedd yn gyfrifol am werthuso perfformiad Cynghorwyr yn y pen draw.

Cafodd yr argymhellion yn adroddiad y Swyddogion eu cynnig a'u heilio ac yna cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant a gynigiodd ddiwygio'r Rhaglen Sefydlu i gynnwys mecanwaith adolygu perfformiad chwe mis ar gyfer Aelodau Etholedig i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad llafar, ac wrth nodi bod 8 o blaid, 36 yn erbyn, a 2 yn ymatal, cyhoeddwyd i'r gwelliant fethu gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

Drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad llafar, ac wrth nodi bod 45 o blaid, 1 yn erbyn, a 4 yn ymatal, cytunwyd i hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD: -

(i) Nodi sylwadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

(ii) Cymeradwyo Rhaglen Sefydlu Aelodau 2022 (Atodiad 1) ddiwygiedig.

10. NEWIDIADAU I'R PROTOCOL ABSENOLDEB TEULUOL AR GYFER AELODAU AWDURDODAU LLEOL

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Cyngor am y newidiadau i'r Protocol Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol, a oedd yn cynyddu swm yr absenoldeb â thâl y mae gan Aelodau hawl i'w gael mewn perthynas ag absenoldeb mabwysiadu a gofynnwyd am gymeradwyaeth gan y Cyngor i ymgorffori'r Protocol diwygiedig o fewn y Cyfansoddiad.

Nododd y Cyngor fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2022 a'u bod wedi cefnogi ei argymhelliad i'r Cyngor yn unfrydol.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD: -

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a'r newidiadau a wnaed i Brotocol Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol fel y nodir yn Atodiad 1.

2. Awdurdodi y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro i ddiwygio'r Cyfansoddiad drwy roi'r fersiwn ddiwygiedig yn lle'r Protocol presennol.

Wrth gloi'r cyfarfod, talodd y Maer deyrnged i bob Cynghorydd am eu holl waith caled dros y pum mlynedd diwethaf ac am y gefnogaeth a gafodd yn ystod ei chyfnod fel Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Cofnododd y Maer ei diolch yn ffurfiol i'r Dirprwy Faer, y Cynghorydd June Stone, am ei chefnogaeth ac i Swyddogion am eu gwaith caled a'u hymroddiad mewn cyfnod mor ddigynsail.

Rhannwyd y teimladau hyn gan Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol a oedd yn bresennol a chan Aelodau sy'n ymddeol a fynegodd eu diolch i'r holl Gynghorwyr am eu gwaith caled a'u hymrwymiad a dymunwyd pob llwyddiant iddynt ar gyfer y dyfodol.

Manteisiodd y Prif Weithredwr ar y cyfle i ddymuno'n dda i bob Cynghorydd am eu holl ymdrechion yn y dyfodol a diolchodd iddynt ar ran cymunedau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am eu holl waith caled.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:40pm.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunir arnynt ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 19 Gorffennaf 2022, fe'u llofnodwyd gan y Maer.

_____

MAER